# CYNLLUN HYFFORDDIANT CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Cymuned Waunfawr ystyried hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr a staff dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholidau (Cymru) (2021) a chyhoeddi'r cynllun a rei wefan.

Pwrpas y Cynllun Hyfforddi yw sicrhau bod y Cynghorwyr a'r Clerc yn meddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Ni does angen i bob Cynhgorydd na'r Clerc fod wedi derbyn yr un hyffroddiant na datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddi newydd ar waith ar ol pob etholiad arferol o gynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi a ddeillia o newidiadau i aelodaeth y Cyngor a darparu ar gyfer ethol cynghorwyr newydd. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath ac fe'i hadolygir yn flynyddol i'w gadw'n gyfredol a phernasol.

Mae meysydd craidd er mwyn sicrhau bod gan y Cynghrowyr a'r Clerc sgiliau a dealltwriaeth ddigonol, sef:

- Anwytho sylfaenol i gynghorwyr newydd
- Y Cod Ymddiygiad ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- Cynllunio
- Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu

Caiff pob Cynghorydd gynnig mynychu hyfforddiant a datblygiad perthnasol. Mae Un Llais Cymru (ULlC) yn darparu gwybodaeth fisol o'r hyfforddiant sydd ar gael ac fe'i dosberthi'r i'r aelodau. Cynigir yr hyfforddiant yn rhithiol ac ma ear gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff pob Cynghorydd y fersiwn diweddaraf o'r canllaw, 'Cynghorydd Da' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dylent ymgyfarwyddo a'i gynnwys. Yn ogysta, caiff y Clerc gyfle i fynychu hyfforddiant a gynigir.

Ariannu'r Hyfforddiant - bob blwyddyn cyn gosod y gyllideb bydd rhaid ystyried anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn arniannol . Bydd angen neilltuo cyllid yn flynyddol ar gyfer hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall y Cynghorwyr a'r Clerc fynychu cyrsaiu, cynadeleddau a digwyddiadau a drefnir gan y sector.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:

- Gylchredeg unrhyw wybodaeth am hyfforddiant addas ac awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- Gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol

Cynllun

- **Cynghorwyr Newydd** - mynychu'r modiwl a ddarperir gan ULlC o fewn blwyddyn i'w hethol
- **Pob Cynghorydd** - mynythu modiwl hyfforddiant Côd Ymddygiad ULlC o fewn dwy flynedd i'w hethol.
- Annog pob Cynhgorydd fynychu cyrsiau priodol ULlC

- Annog pob Cynghorydd fynychu cyrsiau Cymorth Cynllunio Cymru e.e. ‘Cynllunio: O’r dechrau i’r Diwedd’
- **Cadeirydd ac Is-gadeirydd** - mynychu modiwl Sgiliau Cadeirio ULlC o fewn blwyddyn i’w hethol.
- **Clerc** - hyfforddiant sydd ei angen yn nol yr angen.

Mabwysiadwyd : 24 Ionawr 2024

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Hawys Tuff

Clerc: Shoned Griffith